# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ty Mawr Ltd**

**Cartref Nyrsio Ty Mawr**
**Caehopcyn Aber-Craf**
**Abertawe**
**SA9 1TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ty Mawr Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Ty Mawr Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] 13.12.2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Ty Mawr yn darparu gofal a chymorth nyrsio i hyd at 46 o bobl. Mae'r gweithwyr gofal a'r staff yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd hamddenol a chyfeillgar. Mae'r gweithwyr gofal a'r nyrsys yn deall beth sy'n bwysig i'r bobl ac yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn cael y profiadau gorau posibl. Maent yn cefnogi'r bobl i fod mor iach ac egnïol â phosibl. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu darparu gan ddau gydlynydd gweithgareddau. Mae cyfarpar a chyfleusterau'r cartref yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff, sy'n cael eu harwain gan reolwr rhagweithiol, uchel ei barch. Caiff y staff gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Mae cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio yn rhoi'r cyfle i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod polisïau yn cael eu diweddaru a'u bod yn berthnasol. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Yn ôl y staff, maent yn teimlo'n hapus yn eu rolau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â'r gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd ac mae'n goruchwylio'r broses yn dda er mwyn sicrhau bod yr arferion yn cyrraedd safon uchel bob amser. Fodd bynnag, rhaid cwblhau adroddiad sicrhau ansawdd bob chwe mis.

## Llesiant

Gall y bobl fynegi eu barn ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn barhaus yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac ar eu gofal. Caiff anghenion gofal a chymorth eu hadolygu'n rheolaidd a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'u cynrychiolwyr yn rheolaidd. Dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd yn dda iawn a'u bod yn gallu gwneud ceisiadau penodol. Dywedodd un person, "*they got me kippers*". Dywedodd un perthynas bod cyfarfod diweddar i breswylwyr/perthnasau wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac yn "*very informative and we were able to make suggestions*".

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn glir i'w dilyn. Caiff adolygiadau rheolaidd eu cynnal ac mae tystiolaeth bod trefniadau ar waith i ymgynghori â'r bobl wrth gynnal yr adolygiadau hyn. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda iawn am y bobl ac felly maent yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb iddynt yn brydlon. Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Os oes angen, caiff staff ychwanegol eu recriwtio cyn i bobl newydd symud i mewn. Mae hyn yn sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu gofal a chymorth amserol. Caiff y bobl ofal gan weithlu diogel a medrus gan fod y gwasanaeth yn recriwtio ac yn hyfforddi staff yn briodol. Caiff cyfarpar a chyfleusterau'r cartref eu gwasanaethu a'u harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel. Fodd bynnag, mae angen adolygu rhai ohonynt, gan gynnwys y polisi diogelu, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y canllawiau mwyaf cyfredol. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Dywedodd perthynas wrthym "*I can go to bed at night and not worry about him because he's fine here*".

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn lle dymunol i fyw ynddo; mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno mewn ffordd hyfryd ac yn adlewyrchu chwaeth bersonol y bobl. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl, yn ogystal â phreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain. Mae rhai ardaloedd o'r cartref wedi dyddio rhywfaint, ond mae rhaglen gwella barhaus ar waith er mwyn cynnal safonau amgylcheddol da.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da pan fo'u hangen arnynt. Gwelsom y gweithwyr gofal yn trin y bobl mewn ffordd sylwgar a chefnogol. Caiff anghenion gofal a dewisiadau pob unigolyn eu dogfennu'n glir, ac mae'r staff gofal yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn llywio eu harferion dyddiol. Mae'r ffeiliau yn cynnwys hanes cymdeithasol pob unigolyn er mwyn i'r staff gofal allu dod i'w adnabod a chael gwybod am ei fywyd cyn dod i'r cartref. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl.

Ar y cyfan, mae lefelau staffio cyson a phriodol ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ceir lefelau staffio digonol ar gyfer pob shifft, ac mae rhai o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cryn dipyn o amser. Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb yn gyflym i unrhyw gais am help. Mae'r staff yn cefnogi ei gilydd ac yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Wrth siarad am y rheolwr dywedodd un perthynas "*she is exceptional, always got time for us*".

Mae rhaglen o weithgareddau amrywiol a rheolaidd ar waith.  Mae'r nodiadau dyddiol yn dangos bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon mewn grwpiau neu'n unigol. Gofynnir i'r bobl neu i aelodau o'u teulu am hanes eu bywyd a'u dewisiadau cymdeithasol er mwyn gallu teilwra'r gweithgareddau i'r unigolyn. Mae lluniau o gwmpas y cartref yn dangos tystiolaeth o'r gweithgareddau y mae'r bobl wedi cymryd rhan ynddynt yn unigol neu fel grŵp. Dywedodd y bobl wrthym "*every few weeks they take me shopping*", "*we have a good variety*" a "*they are introducing new things*".

Mae'r bobl yn cael eu trin mewn modd cynnes a charedig. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl fel unigolion. Maent yn sylwgar iawn, ac yn arfer y lefelau priodol o anogaeth a chymorth wrth ymateb i anghenion gwahanol y bobl. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Mae'r staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd y perthnasau wrthym "*they are really good here, can't fault them*" a "*brilliant, such loving caring people*". Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym "*They do as much as they possibly can for you*", "*I get on well with them, we have a laugh*" and "*they go above and beyond*". Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol.

Mae trefniadau diogel ar waith i storio, archebu a rhoi meddyginiaeth sy'n cael ei storio'n ddiogel. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen a chânt eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi pan fydd meddyginiaeth wedi'i rhoi. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod ganddo gydberthynas dda â'r gweithwyr iechyd proffesiynol a'r fferyllwyr. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael hyfforddiant ar roi

meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i feddu ar sgiliau digonol. Mae cwblhau archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau bod yr arferion yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd cyffredinol yn gynnes ac yn groesawgar, heb unrhyw arogleuon. Gall y bobl bersonoli eu hystafell gyda lluniau, dodrefn ac eitemau bach i gofio, sy'n helpu i greu naws gartrefol. Roedd pob rhan o'r cartref yn weithredol ac yn lân yr olwg, ac yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol hefyd. Mae'n ymddangos bod safon glendid a hylendid y cartref yn dda. Mae'r gegin a'r cyfleusterau golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref. Dyfarnwyd sgôr o 5* i'r gegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau yn dda iawn. Mae angen adnewyddu rhai agweddau ar y cartref, er enghraifft, y carpedi mewn rhai ardaloedd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod rhaglen adnewyddu barhaus ar waith . Dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym "*It's comfortable here*". Mae gweithiwr cynnal a chadw dynodedig sy'n ymdrin â materion wrth iddynt godi.

Caiff y bobl fudd o ymrwymiad y gwasanaeth i sicrhau arferion diogel. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ffeiliau cynnal a chadw yn dangos bod y cyfleustodau, y cyfarpar a'r nodweddion diogelwch tân yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Caiff ffeiliau gofal a meddyginiaeth eu cadw dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth ac mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn disgrifio'r trefniadau cyfredol sydd ar waith yn gywir. Mae hyn yn cynnwys y llety sydd ar gael yn y gwasanaeth, y broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth Cymraeg.

Mae'r darparwr yn cefnogi'r staff i godi pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. Mae polisi ar waith ac ar gael i'r staff. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn hygyrch, ac mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion o unrhyw gamau gweithredu a chanlyniadau. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisïau a welsom er mwyn sicrhau eu bod wedi'u teilwra'n fwy i'r gwasanaeth. Gwnaethom drafod hyn â'r Unigolyn Cyfrifol ac esbonio bod hyn yn faes i'w wella ac y byddem yn disgwyl i'r gwasanaeth fod wedi gweithredu erbyn ein harolygiad nesaf. Mae canmoliaeth a chardiau diolch i'w gweld yn y gwasanaeth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth yn rheolaidd ac mae ganddo ymwybyddiaeth dda o arferion ac anghenion parhaus y gwasanaeth. Mae hefyd yn cwblhau cofnodion chwarterol manwl yn seiliedig ar y cymorth a ddarperir ac ar y trefniadau ehangach ar gyfer rhedeg y cartref. Fodd bynnag, nid yw wedi paratoi'r adroddiad bob chwe mis ar ansawdd y gofal y dylid bod wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2022, i asesu ac adolygu ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu erbyn ein harolygiad nesaf.

Mae staff sydd wedi cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol yn gofalu am y bobl sy'n byw yng nghartref Ty Mawr. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod y darparwr yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae gwiriadau recriwtio staff manwl yn gyfredol. Mae nifer o staff wedi gweithio yn y cartref am sawl blwyddyn, sy'n rhoi parhad gofal i'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt. Mae parch mawr tuag at y rheolwr gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ogystal â'r ymwelwyr, a dywedodd un perthynas "*the manager is brilliant, lovely caring woman*". Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw "*I do enjoy my job, this is my passion*", "*I enjoy it here*" ac "*I wouldn't do anything else*".

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r adroddiad sicrhau ansawdd bob chwe mis fel sy'n ofynnol | Newydd |
| 12 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, eu bod yn cael eu hadolygu a'u bod yn berthnasol. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/03/2023